



The Open
University
Y Brifysgol
Agored

WALES CYMRU

Rita



lawn. Dyma'r cam cyffrous. Rwy'n credu bod gennyf bopeth y mae arnaf ei angen i roi cynnig ar rywbeth. Rydw i wedi amlygu pa elfennau o'r cwrs dosbarth presennol rydw i eisiau eu cadw, pa rai y byddaf yn eu newid neu eu haddasu, a pha ddeilliannau dysgu rydw i eisiau i'm dysgwyr eu cyflawni mewn ffordd newydd yn yr amgylchedd ar-lein.

Gyda'r deunyddiau newydd hyn, byddaf yn dychwelyd i'm prosesau arferol ar gyfer dylunio deunyddiau dysgu ac yn defnyddio fy ngwybodaeth am ddylunio dysgu i sicrhau bod yr addysgeg yn sail i'r hyn rydw i'n ei wneud. Dim ond wedyn y byddaf yn gadael i'm hun ddechrau cyffroi am dechnolegau, cyfryngau ac Adnoddau Addysgol Agored! Rydw i'n mynd i ddechrau gweithio ar baratoi fy neunyddiau addysgu ar-lein, a gobeithiaf eich gweld pan fyddaf wedi cynhyrchu rhywbeth.

[CLOC YN TICIAN]

Helô eto. Rwy'n falch eich bod chi'n dal yno. Rydw i wedi bod yn gweithio am beth amser, ond rwy'n credu bod gennyf ddrafft cyntaf o'm deunyddiau addysgu ar-lein yn barod. Fe greais fframwaith gan ddefnyddio fy neilliannau dysgu wedi'u hailgynllunio, ac fe ychwanegais eitemau ato a fyddai'n cael eu haddasu o'm deunyddiau dosbarth presennol.

Roedd angen i rai o'm deunyddiau dosbarth gael eu diwygio, er enghraifft trwy wneud sleidiau PowerPoint yn fwy ystyrion a hygyrch ar eu pen eu hunain.

Ar ôl amlygu'r bylchau, fe ddechreuais i edrych trwy'r holl ddeunydd OER yr oeddwn wedi'i lawrlwytho o'r storfeydd. Pan ddechreuais i edrych drwyddo, gwrthodais rywfaint ohono'n syth oherwydd ei fod ar y lefel anghywir, nid oedd yn ddigon hygyrch, neu oherwydd ei fod yn defnyddio technegau addysgu nad wyf yn credu eu bod yn ddelfrydol i'm dysgwyr i.

Ond fe ddes i o hyd i rai deunyddiau gwych hefyd, ac ar ôl eu haddasu rhywfaint i weddu i'm diben i, llenwais y rhan fwyaf o'r bylchau yn fy nghwrs yn y modd hwnnw.

Yn olaf, bu'n rhaid i mi greu rhai eitemau o'r newydd gan nad oeddwn yn gallu dod o hyd i unrhyw beth a fyddai'n cyflawni'r nod. Ond nawr, rwy'n barod i ofyn i'm ffrindiau a'm cydweithwyr hygyrchedd fwrw golwg drosto a rhoi adborth i mi. Rwy'n nerfus ynglŷn â beth fyddan nhw'n ei ddweud, ond rwy'n falch o fod wedi cyrraedd mor bell â hyn.